Arholwr yn unig

**1.** Mae angen ïonau anorganig ar organebau byw. Cwblhewch y tabl isod i roi swyddogaeth ar gyfer **pob un** o'r pedwar ïon. [4]

| *Ïon* | *Swyddogaeth* |
|---|---|
| Magnesiwm | |
| Haearn | |
| Ffosffad | |
| Calsiwm | |

**(Cyfanswm 4 marc)**

**2.** Cwblhewch y darn canlynol trwy nodi'r termau cywir yn y blychau priodol. [6]

Moleciwl ffibrog yw cellwlos. Carbohydrad yw hwn sy'n brif gydran .................... mewn planhigion. Mae cellwlos wedi'i wneud o gadwynau o foleciwlau .................... glwcos sydd wedi'u cysylltu gan fondiau .................... 1-4. Mae pob moleciwl glwcos cyfagos yn cael ei gylchdroi .................... ° gan roi cadwyn. Mae'r cadwynau yn cael eu dal at ei gilydd gan fondiau .................... sy'n ffurfio grwpiau o gadwynau o'r enw .................... .

**(Cyfanswm 6 marc)**

**1.** Mae'r cemegion sydd yn y rhestr isod i'w cael mewn celloedd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| A | magnesiwm | F | calsiwm |
| B | maltos | G | ffosffad |
| C | asid amino | H | dŵr |
| D | cellwlos | I | swcros |
| E | haearn | | |

Mae pob un o'r gosodiadau canlynol yn berthnasol i un neu fwy o'r cemegion hyn.
Ar ôl pob gosodiad, ysgrifennwch yn y blwch y llythyren neu'r llythrennau sy'n cyfateb i'r cemegyn/cemegion a ddisgrifir. Cewch ddefnyddio pob llythyren unwaith, mwy nag unwaith, neu ddim o gwbl.

*(a)* I'w gael mewn esgyrn a dannedd. ☐

*(b)* Siwgr anrhydwythol *(non-reducing)*. ☐

*(c)* I'w gael yn y cloroffyl mewn dail. ☐

*(ch)* Polysacarid sydd i'w gael mewn cellfuriau planhigyn. ☐

*(d)* I'w gael wedi'i gysylltu â lipidau yn y bilen blasmaidd. ☐

*(dd)* Mae angen llawer o egni i godi ei dymheredd. ☐

**(Cyfanswm 6 marc)**

**2.** *(a)* Mae lefel adeiledd protein yn dibynnu ar y plygiadau yn y moleciwl a'r mathau o fondiau sy'n bresennol.

Ticiwch (✓) y blychau yn y tabl i ddangos yr holl fondiau sy'n bresennol ym mhob lefel o adeiledd protein. [3]

| *Lefel o adeiledd protein* | *Mathau o fondiau* | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *peptid* | *hydrogen* | *deusylffid* | *ïonig* |
| Cynradd | | | | |
| Eilradd | | | | |
| Trydyddol | | | | |

*(b)* (i) Sut mae adeiledd cwaternaidd protein yn wahanol i'r adeiledd trydyddol? [1]

.......................................................................................................................................

(ii) Rhowch enghraifft o brotein cwaternaidd. [1]

.......................................................................................................................................

**(Cyfanswm 5 marc)**

Arholwr yn unig

**3.** *(a)* Eglurwch sut mae bondiau hydrogen yn ffurfio rhwng moleciwlau dŵr.
Gallwch chi gynnwys diagramau wedi'u hanodi yn eich ateb. [3]

..........

..........

..........

..........

..........

..........



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

*(b)* Mae'r tabl canlynol yn dangos rhai o briodweddau dŵr a'u harwyddocâd ar gyfer bywyd. [5]

**Cwblhewch y tabl** isod.

| Priodwedd | Arwyddocâd Biolegol |
|---|---|
| mae iâ/rhew yn llai dwys na dŵr | |
| | mae'n cyfrannu at oeri'r corff drwy chwysu |
| cydlyniad rhwng moleciwlau dŵr | |
| | mae'n lleihau amrywiad tymheredd mewn cynefinoedd dyfrol |
| mae'n hydoddi sylweddau ïonig | |

1071
510007

8


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**8.** Atebwch **un** o'r cwestiynau canlynol.
Os yw eich ateb yn cynnwys diagramau, mae'n rhaid eu hanodi'n llawn.

**Naill ai,** *(a)* (i) Disgrifiwch adeiledd DNA. [7]
(ii) Beth yw'r gwahaniaethau rhwng DNA a RNA? [3]

**Neu** *(b)* Eglurwch sut mae priodweddau dŵr yn bwysig i blanhigion ac anifeiliaid. Defnyddiwch enghreifftiau pan fydd hynny'n briodol. [10]